

The Owner / Occupier

Fy Nghyf/ My Ref: P-095

Dyddiad/ Date: 30 October 2018

Dear Sir / Madam,

Welsh Government funding has been secured to introduce a Safe Routes in the Community (SRIC) scheme in Pontyclun.

The scheme which is currently being developed will introduce a 20mph speed limit in Cowbridge Road between its junctions with Park Crescent and Station Terrace and include the side roads in between.

It is also proposed to introduce School Keep Clear markings on Heol Y Felin and relocate the existing north bound bus stop from outside the Tesco store to the existing layby outside the Masonic Hall.

Details of the proposals are shown on the attached drawings P095-75-0001 and P95-75-0002

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk) Responses should be returned with your observations by 20 November 2018. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

For further information visit [www.rctcbc.gov.uk/traffic](http://www.rctcbc.gov.uk/traffic).

I trust the above information is of assistance.

Yours faithfully



Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**

Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

Y Perchenog / Meddiannydd

Fy Nghyf/ My Ref: P-095

Dyddiad/Date: 30 Hydref 2018

Annwyl Syr / Fadam,

Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn golygu y bydd cynllun Llwybrau Diogel yn y Gymuned (SRIC) yn cael ei gyflwyno ym Mhont-y-clun.

Bydd y cynllun, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar Heol y Bont-faen rhwng ei chyffyrdd â Park Crescent a Station Terrace a bydd y ffyrdd ar yr ochrau rhwng y strydoedd yma yn rhan o'r cynllun.

Mae bwriad hefyd i gyflwyno marciau ffordd 'Ysgol: Cadwch Yn Glir' ar Heol Y Felin, yn ogystal ag adleoli'r safle bws presennol sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd o'r tu allan i siop Tesco i'r gilfan sy'n bodoli eisoes y tu allan i Neuadd y Seiri Rhyddion.

Mae manylion y cynllun i'w gweld yn llun P095-75-0001 a P95-75-0002 sydd wedi'i gynnwys.

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynlluniau yma. Amgaeaf ffurflen ateb ynghyd ag amlen barod, er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost i gwasanaethautraffig@rhondda-cynon-taf.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 20 Tachwedd 2018. Os na fydd i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, byddai i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad oes sylwadau gyda chi ar y cynnig.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor wrth i ni ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond, fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Am ragor o wybodaeth ewch i: [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig).

Hyderaf fod yr uchod o gymorth i chi.

Yn gywir



Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House  
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001  
Ffacs/Fax: 01443 490414

**Chris Lee C.P.F.A**  
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e. Gymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.